
# Dadorchuddio Patagonia: Lle dan ni'n byw?
# Y Cymro, Hydref 28, 2000

**Tŷ Capel Trevelin.**



Tref fechan yn ne-orllerwin Yr Ariannin yw Trevelin, lle dw i a Nia yn gweithio. Amgylchynir y dref gan fynyddoedd gogoneddus yr Andes, a gerllaw, mae Parc Cenedlaethol "Alerces" lle y gellir mwynhau golygfeydd ardderchog yr ardal arbennig hon. Ynghanol y dref ei hun, ceir rhesi o goed sy´n atgoffa rhywun o´r hyn a ddywedodd Thomas Bartley am Y Bala yn y nofel "Rhys Lewis": "Weles i rioed o´r blaen res o goed mawr, fel coed Plas, ar ganol stryd." Wrth weld coed Y Bala, roedd Thomas Bartley yn synnu nad oedd y brain ar y coed yn achosi trafferth i´r trigolion. Er nad oes brain i´w gweld yn Nhrevelin o gwbl, efallai y gwelwch chi ambell barot amryliw yn hedfan o gangen i gangen yn ystod misoedd y gaeaf!

Os ewch chi ar wyliau i Batagonia un diwrnod, a mynd am dro i Drevelin, peidiwch a cholli´r profiad o fynd i ymweld â Chapel Bethel a´r Ty Capel sydd ar gyrion y dref. Dyma olygfa sy´n llwyddo, bron yn ddi-ffael, i greu argraff ddofn ar yr ymwelydd. Y mae´r ddau adeilad yn llawn cymeriad ac wedi eu hamgylchynu gan goed amrywiol; ac yn gefndir i´r cyfan y mae rhai o fynyddoedd yr Andes aú copaon yn wyn gan yr eira. Yn y Tŷ Capel dan ni'n byw. Pa syndod ein bod yn mwynhau cystal ym Mhatagonia! O ffenest y gegin, gellir gweld mynydd "Gorsedd y Cwmwl" - mynydd sydd wedi ysbrydoli ambell fardd yn y gorffennol, ac sy´n awr yn ysbrydoliaeth i ni sy´n ceisio hybu´r Gymraeg yn yr ardal hon!

Gwnaed llawer iawn o waith ar y Tŷ Capel gan yr athrawes oedd yn yr Andes y llynedd - Sioned Huws - a chan nifer o ddisgyblion yr ardal. Roedd yn rhaid wrth dipyn o waith adnewyddu am nad oedd neb wedi byw yn y ty ers pedair blynedd. Mae un cymydog yn arbennig, o´r enw Elis Williams, wedi gwneud llawer iawn o drwsio ac mae´n galw heibio bob bore er mwyn torri coed tan a thrio dychryn yr ystlumod (!) Ond erbyn hyn mae´r holl dorchi llewys a´r chwysu wedi ildio ei ffrwyth ac mae´r lle wedi ei ailbeintio aí daclu. Y ty bach yw´r ytafell orau o´r cwbl, gan fod un o´r dysgwyr wedi bod wrthi´n peintio murlun o bysgod a cheffylau mor ar y wal ynghyd â llinellau o farddoniaeth gan R. Williams Parry. Na, nid profiad cyffredin yw eistedd ar dŷ bach Tŷ Capel Bethel!

Cafwyd nifer o "ddiwrnodau gwaith" yn y tŷ er mwyn dod a phobl Trevelin at ei gilydd i weithio ar y lle (a siarad Cymraeg ar yr un pryd!) Y gobaith yw y daw´r ty hwn yn ganolfan i´r "Ysgol Gymraeg" yn Nhrevelin - yn lle i bobl gyfrafod er mwyn dysgu Cymraeg, i ymarfer siarad, i gael gweithgareddau cymdeithasol o bob math ac i gynnal cyfarfodydd. Gobeithio y daw´r Tŷ Capel hanesyddol hwn yn galon, unwaith eto, i´r gymuned gyfan.

**Rhian Jones**

**Trelew**



Tref gymharol fodern yw Trelew. Mae yma faes awyr a gorsaf fysus bwysig sy'n cysylltu dyffryn Camwy efo gwahanol rannau o'r Ariannin. Datblygodd y ddinas yn sgîl sefydlu y rheilffordd ym Madryn yn 1886, a chafodd ei henwi ar ôl un o'r sylfaenwyr cyntaf, Lewis Jones. Agorwyd y rheilffordd yma ar 25 Mai 1889 mewn

adeilad deniadol sydd bellach yn amgueddfa, “Museo Regional”. Rai camau oddi yma mae’r “Museo Paleontológico Egido Feruglio” - adeilad modern sy’n olrhain hanes deinosoriaid yn y Wladfa.

Llefydd eraill o gryn bwysigrwydd hanesyddol yw’r banc, “Banco de la Nación”; Capel Tabernacl (1889); “Plaza Indipendecia” (sgwâr y dref neu faes); “Distrito Militar” (lle cynhaliwyd yr ysgol gyntaf); a’r theatrau: “Teatro Verdi” a “Teatro Espaňol”. Ond y lle pwysicaf ddywedwn i yw Neuadd Dewi Sant, achos yma ar ddydd Llun a Dydd Mercher y bydd y gwersi Cymraeg yn cael eu cynnal, ac ymarferion Côr Cymraeg Trelew dan arweiniad Catrin Morris de Junyent (athrawes flaenorol y ddinas am ddwy flynedd).

Un o brif ddigwyddiadau diwylliannol Trelew yw Eisteddfod y Wladfa, a gynhelir ar y penwythnos olaf o Hydref. Mae’n gyfle i’r Archentwyr olrhain eu traddodiadau Cymreig ac Archentaidd. Adeg yma o’r flwyddyn gallwch ddal y bws i weld y morfilod ym Madryn, sy 67 km i’r gogledd, neu ymweld â’r pengwiniaid ym Mhunta Tombo sy 110 km i’r de o Drelew.

Lle dw i’n byw? Wel, dw i’n trigo mewn apartment cymharol gyfoes, sy tua deng munud o waith cerdded o grombil y ddinas. Yn wahanol i’r merched, tydw i ddim yn byw mewn tŷ hanesyddol ond dw i’n gobeithio y bydd y lle yma yn datblygu yn gyrchfan hanesyddol i ddefnyddio’r Gymraeg y tu allan i’r stafell ddosbarth. Hyd yma cynhaliwyd noson gymdeithasol i’r to ifanc, pnawn o gyfarch i ddechreuwyr, yn ogystal â nosweithiau sgwrsio’n Gymraeg i bobol o bob oed. Ar ddydd Gwener byddaf yn rhoi gwersi yma, ac mae’r drws wastad ar agor am baned, maté neu gyfle i wylio fideos neu i wrando ar gerddoriaeth gyfoes Gymraeg.

Dinas gyfleus iawn yw Trelew sy’n cartrefu poblogaeth o 90,000. Mae’n wyntog iawn yma ac mae’r llwch a’r baw ar ôl storm o law yn gallu bod yn llithrig ar y palmentydd yn y gaeaf. Efallai fod peth gwirionedd yn y llinell hon (sydd ar dafodau’r Gwladfawyr): “Trelew tre lwyd, digon o faw a dim bwyd!” I’r rhai sy isio cymdeithasu, mae yma dafarndai amrywiol yn ogystal â chlybiau nos fel Akropolis, Recove, El Establo neu Moreno (dyma’r lle ar nos Sadwrn), ond yn wahanol iawn i Gymru, tydi’r bywyd nos ddim yn dechrau yma tan tua 2 y bore hyd doriad gwawr. Tydy’r bobol ifainc ddim yn yfed fel y Cymry chwaith, ond maen nhw’n gwybod sut i ddawnsio - y merched a’r bechgyn. Felly, erbyn hyn dw i’n giamstar ar ddawnsio ar ôl potel o Quilmes! **Rhys Llewelyn**

